Newyddion y Corff Llywodraethol

Yn gynharach yr wythnos yma, penderfynodd Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ganiatáu litwrgi arbrofol ar gyfer bendithio priodasau a phartneriaethau sifil yn yr Eglwys sydd wedi digwydd mewn sefydliad seciwlar.

Ers i'r cyhoeddiad yma mae nifer o bobl wedi bod mewn cysylltiad yn gofyn beth mae hynny'n ei olygu yn ymarferol i ni a'r eglwysi yn Aberystwyth.

Am gyfnod hir gwasanaethwyd y Fywoliaeth Reithorol, a bellach yr AWL, yn Aberystwyth gan glerigwyr sy'n credu ac yn dysgu bod Glân Briodas rhwng un dyn ac un fenyw. Mae ein clerigwyr presennol yn parhau i weinidogaethu yn y traddodiad hwnnw.

Fel fyddech yn ei ddisgwyl, mae llawer o bobl am wybod beth mae penderfyniad y Corff Llywodraethol yn ei olygu i ni ar lefel ymarferol.

Ar hyn o bryd mae mwy o gwestiynau nag atebion. Nid ydym yn gwybod a fydd y litwrgi newydd yn cael ei ganiatáu yn ein hesgobaeth. Rydym yn deall bod eithriadau yn y Bil ar gyfer y rhai y mae eu hargyhoeddiadau diwinyddol yn golygu na allant ddefnyddio'r litwrgi. Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod sut y bydd hynny'n gweithio'n ymarferol. Pan ddaw pethau'n fwy eglur byddwn yn eu cyhoeddi. Am y tro, yn ein hardal weinidogaeth ni fydd unrhyw newidiadau.

Mae'r clerigwyr yn cydnabod bod ystod eang o safbwyntiau ar y materion yma yn ein heglwysi. Mae angen cymryd pob barn o ddifrif a'i thrin mewn cariad.

Cyn bo hir, atebir y cwestiynau cyfreithiol ac ymarferol. Tan hynny, a hyd yn oed ar ôl hynny, mae angen cyfnod o wrando. Rydyn ni'n gwrando ar ein gilydd. Rydym yn gwrando ar bobl sydd â safbwyntiau gwahanol. Rydym yn gwrando ar strwythurau'r Eglwys wrth i'r manylion ddod yn fwy eglur. Rydyn ni'n gwrando ar y sefydliadau Eglwysig. Rydyn ni'n gwrando ar ddysgeidiaeth gair Duw. Yn bennaf oll rydyn ni'n gwrando ar Dduw.

Rydyn ni'n ymddiried yn Nuw. Cofiwn ei fod Ef yn sofran. Cofiwn am y gras achubol a gynigiwyd inni trwy Iesu Grist. Rydym yn parhau i groesawu pawb i'n heglwysi, gan gofio ein hangen ein hunain am achubwr. Gweddïwn, fel y gweddïodd Iesu, am undod. Gweddïwn y byddai ei Eglwys yn anelu at fod yn sanctaidd. Gweddïwn y byddwn yn cael ein harwain ganddo Ef yn unig.

News from the Governing Body

Earlier this week The Church in Wales' Governing Body approved a motion permitting experimental liturgy for the blessing in Church of same-sex marriages and civil partnerships that have taken place in a secular institution.

Since that decision was made a number of people have been in contact wondering what that means practically for us and our Churches in Aberystwyth.

Traditionally, the Rectorial Benefice, and now LMA of Aberystwyth, has been served by clergy who uphold and teach the view that Holy Matrimony is between one man and one woman. Our current clergy continue to minister in that tradition.

Understandably, a lot of people want to know what the Governing Body's decision means for us on a practical level.

At the moment there are more questions than answers. We do not know if the new liturgy will be permitted in our diocese. We understand that exemptions are in the Bill for those whose theological convictions mean they cannot use the liturgy. However, we do not know how that will work practically. As and when things become clearer we will communicate them widely. For the time being, in our ministry area there will be no changes.

The clergy acknowledge that in our Churches there are a range of views and opinions on the issues. All views need to be taken seriously and treated in love.

As time goes on the legal and practical questions will be answered. Until they are, and even after they are, there is a need to enter into a time of listening. We listen to each other. We listen to people with differing views. We listen to the Church structures as details become clearer. We listen to the Church organisations that we partner with. We listen to the teachings of God's word. Most of all we listen to God.

We put our trust in God. We remember that He is sovereign. We remember the saving grace offered to us through Jesus Christ. We continue to welcome all people into our Churches, remembering our own need of a saviour as we do. We pray, as Jesus prayed, for unity. We pray that His Church would seek holiness. We pray we will be led by Him alone.